

# Agenda – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Fideogynhadledd drwy Zoom Rhys Morgan  
Dyddiad: Dydd Iau, 25 Chwefror 2021 Clerc y Pwyllgor  
Amser: 09.30 0300 200 6565  
[SeneddDGCh@senedd.cymru](mailto:SeneddDGCh@senedd.cymru)

---

## Cofrestru cyn y cyfarfod

(09:00–09:30)

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**  
(09.30)
  
- 2 **Craffu ar waith y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**  
(09.30–11.00) (Tudalennau 1 – 12)
  
- 3 **Papur(au) i'w nodi**
  - 3.1 **Ymateb i'r adroddiad ar yr ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw gan Fwrdd Cerddoriaeth Caerdydd**  
(Tudalennau 13 – 14)
  - 3.2 **Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru ar Reoliadau drafft Safonau'r Gymraeg**  
(Rhif 8)  
(Tudalennau 15 – 17)
  
- 4 **Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**



- 5 Craffu ar waith y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg:  
trafod y dystiolaeth**  
(11:00–11:15)
  
- 6 Ymchwiliad i ddatganoli darlledu: trafod yr adroddiad draft**  
(11.15–11.45) (Tudalennau 18 – 59)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**SWYDDFA'R ARWEINYDD  
OFFICE OF THE LEADER**



**Eitem 3.1**

Neuadd y Sir  
Caerdydd,  
CF10 4UW  
Tel: (029) 2087 2088  
www.cardiff.gov.uk  
County Hall  
Cardiff,  
CF10 4UW  
Tel: (029) 2087 2087  
www.cardiff.gov.uk

Fy Nghyf / My Ref: CM45118

Dyddiad / Date: 27 January 2021

Bethan Sayed MS and Helen Mary Jones MS  
Culture, Welsh Language and Communications Committee  
Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
CF99 1SN

Email: [SeneddCWLC@senedd.wales](mailto:SeneddCWLC@senedd.wales)

Annwyl / Dear Chairs,

This letter is on behalf of the Cardiff Music Board of which I Chair, in response to the Turn Up the Volume - an Inquiry to Live Music Industry report that was published by the Senedd Culture, Welsh Language and Communications committee in December 2020.

I would like to thank you and the committee for undertaking this important inquiry and inviting me to present to the committee and to take part in the wider consultation.

We very much welcome the findings in the report, especially given the challenges that the music sector faces. The Music Board have discussed the report and its recommendations, and there are a number of issues they would like to raise.

In particular, the report does suffer from a lack of consultation with our diverse populations, in particular women, BAME and disabled groups, and it is disappointing that the views these populations are not adequately reflected in the report. The report shows little engagement with musicians, as it primarily focuses on infrastructure, and there is insufficient engagement with professionals and creatives in the sector. The consideration of the impact of Brexit on performers and venues is also noticeable omission given the substantial impact on the sector in Wales.

On the whole we welcome the recommendations in the report, although the large number of recommendations means that some critical issues could be overlooked. The report would therefore benefit from a more focussed and deliverable set of recommendations that recognise the resources partners can leverage. Officers in Cardiff are happy to work with their colleagues in Creative Wales as they consider the recommendations.

**GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI**

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis, dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU**

The Council welcomes correspondence in Welsh, English or bilingually. We will ensure that we communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Tudalen y pecyn 13



We look forward to working with Creative Wales colleagues to support the ambitions for the live music industry in Wales, particularly given Cardiff's role as the Capital and delivering our aspirations as a music city and supporting a thriving Industry and live events sector.

Yn gywir,  
Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Huw Thomas', written in a cursive style.

**CYNGHORYDD / COUNCILLOR HUW THOMAS**  
**ARWEINYDD / LEADER**  
**CYNGOR CAERDYDD / CARDIFF COUNCIL**

Eluned Morgan AS  
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg  
Llywodraeth Cymru

Dyddiad | Date: 8 Ionawr 2021

Pwnc | Subject: Craffu ar Reoliadau drafft Safonau'r Cymraeg (Rhif 8)

Annwyl Eluned,

Diolch i chi am adael i mi wybod – yn eich llythyr dyddiedig 20 Mai 2020 – bod y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad ar Reoliadau drafft Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) wedi'i ymestyn i 2 Hydref 2020 oherwydd y pwysau ar reoleiddwyr iechyd, o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws.

Fe wnaethoch chi egluro ei bod yn debygol na fyddai gan randdeiliaid amser i ystyried y rheoliadau drafft, gan y byddai pwysau ychwanegol arnyh nhw o ganlyniad i gofrestru mwy o ymarferwyr nag arfer, a chyhoeddi canllawiau.

Rwy'n gobeithio bod y dyddiad cau diwygiedig wedi caniatáu i'r cyrff perthnasol gyflwyno eu hymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys y wybodaeth berthnasol ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddio.

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r Pwyllgor wedi craffu ar reoliadau blaenorol Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi ynghylch yr amserlen ar gyfer gosod y rheoliadau. Mae gan y Pwyllgor amserlen brysur iawn rhwng nawr a diddymiad y Senedd, a hoffwn wneud yn siŵr ein bod ni'n caniatáu digon o amser ar gyfer cynnal gwaith craffu ar y rheoliadau yn ein blaenraglen waith.

A fydddech chi cystal â chysylltu â Chlerc y Pwyllgor ar [seneddDGCh@senedd.cymru](mailto:seneddDGCh@senedd.cymru) gyda'r amserlen a ragwelir ar gyfer gosod y Rheoliadau erbyn 29 Ionawr 2021, er mwyn i ni allu cynllunio ar gyfer y gwaith hwn?

Yn gywir,



Bethan Sayed AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 [SeneddDGCh@senedd.cymru](mailto:SeneddDGCh@senedd.cymru)

 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 [SeneddCWLC@senedd.wales](mailto:SeneddCWLC@senedd.wales)

 0300 200 6565



Ein cyf/Our ref MA/EM/0119/21

Bethan Sayed AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Y Gymraeg a Chyfathrebu  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

29 Ionawr 2021

Annwyl Bethan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Ionawr 2021 ynghylch craffu ar Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) drafft.

Mae'n bleser gennyf eich hysbysu bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben ar 2 Hydref 2020 a chafwyd ymatebion gan 15 o gyrff, gan gynnwys 8 o'r 9 corff y bydd y Rheoliadau'n effeithio'n uniongyrchol arnynt. Mae fy swyddogion wedi dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwnaed newidiadau i'r Rheoliadau drafft i fynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd.

Yn ogystal, daeth fy swyddogion i'ch Pwyllgor i ddarparu briff technegol ar 17 Medi 2020. Yn ystod y sesiwn honno, gwnaeth Helen Mary Jones AS, Cadeirydd dros dro y Pwyllgor, awgrym mewn perthynas â Rheoliadau. Ei barn hi oedd y dylai un sydd wedi cofrestru ('registrant') allu trafod cwyn a wneir amdanynt yn Gymraeg gyda'u corff rheoleiddio mewn cyd-destun ehangach na dim ond yn yr achos cyfreithiol ei wrth hun (e.e. gwrandawriad addasrwydd i ymarfer). Rwy'n cytuno â'r farn hon ac mae'r Rheoliadau drafft wedi'u diwygio i wneud darpariaeth fel yr awgrymodd yr Aelod. Bydd y Rheoliadau yn gosod dyletswyddau ar y rheolwyr gofal iechyd ynghylch cwynion yn erbyn un sydd wedi cofrestru. Mae hyn yn sicrhau y byddai un sydd wedi cofrestru yn gallu defnyddio'r Gymraeg drwy gydol y broses o ddelio â chwyn yn eu herbyn, o'r drafodaeth gychwynol gyda'r corff rheoleiddio hyd at wrandawriad addasrwydd i ymarfer ffurfiol.

Fodd bynnag, mae un mater allweddol heb ei ddatrys. Amlygodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad y byddent yn dymuno gweld Safon sy'n gosod dyletswyddau ar reoleiddwyr i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am allu a pharodrwydd un sydd wedi cofrestru i ddefnyddio'r Gymraeg wrth drin cleifion fel y bydd person yn gallu ystyried iaith wrth ddewis ymarferwyr e.e. osteopath, optegydd neu ddeintydd. Amcan y cynnig yw cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y sector hwn drwy ddewis un sydd wedi cofrestru sy'n gallu ymarfer yn Gymraeg.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n cefnogi'r amcan hwn ac rwy'n awyddus i fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, mae'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r amcan hwnnw yn gofyn am ystyriaeth bellach gyda'r sector a chyda Chomisiynydd y Gymraeg.

Felly, rwyf wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen i osod y Rheoliadau hyn yn ystod tymor y Senedd hwn, ond rydw i wedi gofyn i fy swyddogion barhau i ystyried y mater . Rwy'n hapus i gyfarfod â chi fel Cadeirydd y Pwyllgor i roi diweddariad unwaith byddwn wedi canfod datrysiaid ymarferol.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg  
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language



# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon